

Adroddiad yr Ymgynghoriad
Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (gweler y Tabl isod)

I Gynllun Datblygiad Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Derbyniwyd Medi 2010

Cymeradwywyd y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol drafft canlynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 26 Mehefin 2013.

Effaith Cronnus Tyrbinau Gwynt ar Dirwedd a Harddwch Gweledol (Cyfarwyddyd newydd)
Morluniau (Cyfarwyddyd newydd)
Cynllun Cynaliadwy (diweddariad)

Dechreuodd yr ymgynghoriad ym mis Awst 2014 a daeth i ben ar 1^{af} Tachwedd 2013.

Anfonwyd tua 800 o lythyron i ymgynghorwyr ar fas data'r Cynllun Datblygiad Lleol, ac ymgynghoriad trwy e-bost i'r rhai a fynegodd y dewis hwn. Hysbyswyd yr ymgynghorwyr y gellid trefnu fod CD o'r dogfennau ymgynghorol ar gael am ddim a bod y dogfennau ar gael i'w lawr lwytho o wefan yr Awdurdod. Roedd copiâu papur o'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar gael pan wneir cais a hynny am ffî fechan.

Darparwyd llythyron a CDs o'r dogfennau ymgynghorol i lyfrgelloedd o fewn Sir Benfro a hefyd yn San Clêr ac Aberteifi fel a ganlyn

Aberteifi	Penfro	Tyddewi	Trefdraeth
Crymymch	Hwlfordd	Saundersfoot	Neyland
Abergwaun	Aberdaugleddau	Dinbych y Pysgod	
Arberth	Doc Penfro	San Clêr	

Fe'u darparwyd hefyd i ganolfannau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Nhrefdraeth, Tyddewi a Dinbych y Pysgod. Roedd copiâu papur ar gael i'w gweld yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ym Mharc Llanion, Doc Penfro.

Darparwyd CDs yn cynnwys y dogfennau i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned o fewn y Parc Cenedlaethol, Darparwyd y cyfle hefyd i Gynghorau i ofyn am gopi papur o'r cyfarwyddyd a hynny am ddim. Darparwyd amlen rhadbost i annog hyn. Darparwyd unrhyw ddogfennau ar ôl hyn i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned heb unrhyw gost i'r Cynghorau.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy wefan yr Awdurdod a thrwy hysbysiadau cyhoeddus yn y Western Telegraph a ymddangosodd ar 7^{fed} Awst 2013. Tua diwedd yr ymgynghoriad fe ddodon ni nodyn i atgoffa pobol yn y Tenby Observer, Dydd Gwener Hydref 18^{fed} 2013, y Western Telegraph,, Dydd Mercher 16^{eg} 2013, y Tivyside Advertiser, Dydd Mawrth Hydref 22^{ain} 2013 a'r Pembrokeshire Herald, Dydd Gwener, Hydref 18^{fed} 2013. Hysbysodd Radio Penfro'r ymgynghoriad hefyd. Hefyd ar 15^{fed} Hydref 2013 fe welodd 660 o unigolion y 'post' a wnaed gan yr Awdurdod ar Facebook ynglŷn â'r ymgynghoriad. Fe'i hysbysebwyd hefyd ar Twitter. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad trwy wefan yr Awdurdod a thrwy hysbysiad cyhoeddus yn y Western Telegraph ar 25 Gorffennaf 2012.

Cydnabuwyd pob ymateb, ac maen nhw ar gael i'r cyhoedd- gweler y cyswllt i'r wefan isod. Ymatebodd cyfanswm o 28 sefydliad/unigolion gan wneud 172 sylw unigol o gefnogaeth.

Adroddwyd ymatebion swyddogion i'r ymgynghoriad ar y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2013. Gellir gweld adroddiad ymatebion y swyddogion i ymgynghoriad ar gyfarwyddyd cynllunio atodol trwy ddefnyddio'r cyswllt gwefan canlynol:

[Committee Papers for Supplementary Planning Guidance](#)

Cytunodd yr Awdurdod wneud newidiadau i'r cyfarwyddyd yn unol ag argymhellion y swyddogion a osodwyd yn yr adroddiad.

Mae'r Cyfarwyddwyd wedi ei lwytho i fyny ar y wefan yn
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183>